**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (21)**

**Dydd Mawrth, 16 Hydref 2001**

**AGENDA**

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cyflwyno aelod newydd**

**Eitem 2**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Datganiad ar y Cynllun Busnes Flynyddol**

**Bydd y gweinidog dros Fusnes y Cynulliad yn cynnig Cynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn ymlaen eitemau 4,7,8,9 ag 11 a than Reol Sefydlog 34.4 i gohirio darpariaethau Rheol Sefydlog 6.11 er mwyn trafod busnes heddiw yn ol y drefn a osodwyd yn yr agenda a gyhoeddwyd yn gynharach heddiw ac a ddosbarthwyd i'r aelodau.**

**Eitem 4**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Prif Weinidog**
*NDM781* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn croesawu Adroddiad Prif Weinidog Cymru ar gyfer 2000-2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Hydref 2001.

*Adroddiad Prif Weinidog Cymru ar gyfer 2000-2001*- Nid yw'r ddogfen hon ar gael mewn fersiwn electroneg

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*
*(1)+(2)*

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Canol De Cymru);**
Dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Canol De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig ', ac yn mynegi ei siom fawr bod y Llywodraeth Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyflawni cyn lleied dros Gymru yn ei flwyddyn gyntaf."

**Eitem 5**
**Datganiad ar y sefyllfa ryngwladol**

**Eitem 6**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 7**
**Ethol i Bwyllgor Pwnc yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**
*NDM782* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Eleanor Burnham (Democrat Rhyddfrydol) i'w Bwyllgor Pwnc yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn lle Mick Bates (Democrat Rhyddfrydol).

**Eitem 8**
**Ethol i Bwyllgor Pwnc Addysg a Dysgu Gydol Oes**
*NDM783* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Mick Bates (Democrat Rhyddfrydol) i'w Bwyllgor Pwnc Addysg a Dysgu Gydol Oes yn lle Eleanor Burnham (Democrat Rhyddfrydol).

**Eitem 9**
**Cymeradwyo Rheoliadau Diwygio Rheoliadau Porthiant (Cymru) a Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) (Cymru) 2001**
*NDM776* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25 yn :
1. Cymeradwyo Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Rheoliadau (Gorfodi) Bwydydd Anifeiliaid (Diwygiad) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Gorffennaf 2001; ac yn

2. Ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Rheoliadau (Gorfodi) Bwydydd Anifeiliaid (Diwygiad) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2001, a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Gorffennaf 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Hydref 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol
Cliciwch yma i weld a'r Memorandwm o Gywiriadau

**Eitem 10**
**Cymeradwyo Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn rhag Tramgwyddwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001**
*NDM777* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn rhag Tramgwyddwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

*NDM778* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:
1. ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn rhag Tramgwyddwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001; ac yn

2. cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld a'r Memorandwm o Gywiriadau

**Eitem 11**
**Dirprwyo swyddogaethau'r *Warm Homes and Energy Conservation Act 2000***
*NDM779* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan y *Warm Homes and Energy Conservation Act 2000* (ar gael ar wefan Gwasg Ei Mawrhydi: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000031.htm ) i Brif Weinidog y Cynulliad ac eithrio'r rhai hynny na ellir yn ôl cyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

*Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.*

Cliciwch yma i weld y *Warm Homes and Energy Conservation Act 2000*

**Eitem 12**
**Dadl ar Strategaeth Wastraff Cymru**

*NDM780* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu'r ddogfen ymgynghori "*Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy*", a roddwyd ar y Fewnrwyd ar 4 Gorffennaf 2001 ac sydd i'w chael ar:- *http://assembly/aegis/Subject%20Index/Environment/Wales%20Waste%20Strategy.htm* ; ac
2. Yn cytuno y bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn cyhoeddi strategaeth wastraff newydd ar gyfer Cymru i ddisodli yng Nghymru y strategaeth wastraff bresennol ar gyfer Cymru a Lloegr ar y cyd a nodir yn *"Waste Strategy 2000",* a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Hydref 2001; ac yn ystyried sylwadau ac ystyriaethau a ddaeth i'r amlwg ers cyhoeddi *"Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy".*

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

(1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn cytuno mai targed y strategaeth wastraff newydd yn y pen draw fydd dim tirlenwi o gwbl.'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cytuno mai dim ond lle nad oes dewis arall y caniateir llosgi yn y strategaeth wastraff newydd, a hynny ar ôl cynnal yr asesiadau mwyaf trwyadl o effaith y llosgi ar iechyd; ac yn gresynu bod rhai awdurdodau lleol yn rhuthro i ddatblygu llosgi er mwyn lleihau'r defnydd y maent yn ei wneud o dirlenwi."

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar y Gweinidog dros yr Amgylchedd i gynnal adolygiad brys o'r datblygiadau presennol sy'n bwriadu defnyddio llosgi fel ffordd o gael gwared â gwastraff, yn fwyaf arbennig yn Crumlyn Burrows a Wrecsam, gyda golwg ar ddiddymu caniatâd cynllunio i rwystro unrhyw ddatblygiad nad yw'n gynaliadwy os bydd angen."

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod y bydd angen newid enfawr yn yr arferion gwaredu gwastraff cyn y bydd Cymru yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Tirlenwi a'r lefel fawr o gyllid parhaus fydd ei angen i gyflawni'r newid hwnnw.'

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog dros yr Amgylchedd i:-

a. Sicrhau bod cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer y Strategaeth Wastraff yng nghyllideb y flwyddyn nesaf a'r cyllidebau dilynol.

b. Trefnu gyda Llywodraeth San Steffan, a hynny ar frys, fframwaith symlach a mwy effeithiol ar gyfer rheoli gwaredu gwastraff.

c. Trefnu gyda Llywodraeth San Steffan fod yr holl arian sy'n cael ei godi yng Nghymru trwy'r Dreth Tirlenwi yn cael ei drosglwyddo i gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn i'r Cynulliad ddefnyddio'r holl refeniw sy'n deillio o'r dreth tirlenwi i hybu ffordd gynaliadwy o gael gwared â gwastraff.

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn galw ar y Gweinidog dros yr Amgylchedd i sicrhau bod y Strategaeth Wastraff yn cydweddu’n llwyr gyda strategaethau a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru, yn enwedig y fframwaith polisi cynllunio newydd, a’i bod yn cydymffurfio’n llwyr â’r Cynllun Datblygu Cynaliadwy."

Cliciwch yma i weld y "*Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy*" - Ar gael yn Saesneg yn unig. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr.
*"Waste Strategy 2000",* - Nid yw'r ddogfen hon ar gael mewn fersiwn electroneg

**Eitem 13**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio - *ni symudir yr eitem hon***

**Item 14**
**Dadl ar Adroddiadau Blynyddol Cadeiryddion y Pwyllgorau Rhanbarth 2000/01 - *ni symudir yr eitem hon***

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 18 Hydref 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**